Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

19 Awst 2008

Mae angen mwy o arweiniad ar addysgwyr oedolion a phobl ifanc ar addysgu Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang, meddai Estyn

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi adroddiad heddiw ar y modd y mae Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDFE) yn cael ei chyflwyno gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gweithwyr ieuenctid yng Nghymru.

Mae ADCDFE yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau yn eu bywydau sy'n hyrwyddo byd mwy cyfiawn a chynaliadwy a gwella ansawdd bywyd i bawb.

Mae adroddiad Estyn yn esbonio bod ystod ac ansawdd yr addysg ADCDFE a gyflwynir gan ddarparwyr gwaith ieuenctid yn well na darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, yn gyffredinol.

Fodd bynnag, er bod bron pob darparwr yn cynnwys dysgwyr mewn elfennau ar ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, canfu arolygwyr nad oes gan lawer o ddarparwyr ddealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad na diben ADCDFE, nac o'r rhyngberthynas rhwng datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Dywedodd arolygwyr hefyd fod llawer o ddarparwyr yn ceisio datblygu ADCDFE ar wahân i weithgareddau dysgu eraill, sy'n lleihau ei heffaith a'i heffeithiolrwydd. Mae'r darparwyr hyn yn aml yn gweithio ar wahân i'w gilydd, sy'n arwain at ddyblygu a gwastraffu adnoddau.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, “Mae llawer o ddarparwyr gwaith ieuenctid yn cynnig amrywiaeth eang o brosiectau ansawdd da gyda ffocws clir ar flaenoriaethau ADCDFE. Rydyn ni wedi gweld nifer o enghreifftiau o diwtoriaid dysgu oedolion yn y gymuned a gweithwyr ieuenctid yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gweithio’n dda ar rai materion allweddol fel hyrwyddo byw yn iach, bwyta’n iach, iechyd rhywiol a datblygu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Yn yr achosion gorau, gall ADCDFE helpu dysgwyr iau i greu perthynas well ag aelodau hŷn o’r gymuned sy’n arwain at ddealltwriaeth fwy ystyrlon o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang fel y mae’n berthnasol i’w hardal eu hunain.

“Mae ein hadroddiad, fodd bynnag, yn dangos bod angen i banel ymgynghorol ADCDFE Llywodraeth Cynulliad Cymru roi esboniad cliriach o ADCDFE, yn enwedig ar gyfer darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid. Mae’r enghreifftiau cadarnhaol yn yr adroddiad yn dangos manteision gwirioneddol ADCDFE. Hoffen ni weld pob dysgwr yn cael y cyfle i gael profiad o’r rhain.”

Amlygodd arolygwyr arfer dda mewn un awdurdod lleol yn arbennig lle’r oedd dysgwyr sy’n oedolion yn mynychu cyrsiau waliau cerrig sych. Fe wnaeth y gweithgaredd hwn gynnig cyfleoedd cyflogaeth newydd, cefnogi gwaith amgylcheddol lleol a datblygu medrau gwledig dysgwyr. Mewn awdurdod arall, roedd grŵp o ddysgwyr yn defnyddio’r wybodaeth a ddysgwyd mewn sesiynau byw yn iach i wella ansawdd prydau bwyd eu plant.

Fodd bynnag, canfu Estyn nad oes digon o adnoddau ansawdd da ar gael i diwtoriaid oedolion yn y gymuned a gweithwyr ieuenctid er mwyn eu galluogi i integreiddio ADCDFE yn hawdd wrth gyflwyno eu cyrsiau a’u sesiynau. Yn benodol, dywed Estyn nad yw’r wefan ADCDFE yn cael ei defnyddio’n ddigon da fel adnodd i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o’r byd. Mae Estyn yn argymell y dylai’r panel ymgynghorol wella’r wefan fel ei bod yn cysylltu darparwyr ag adnoddau cyfoes a phriodol, ac yn rhannu enghreifftiau o arfer dda ar draws pob darparwr yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Comisiynwyd adroddiad Estyn, ‘Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru’, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyma ddiffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ADCDFE:

- y cysylltiadau rhwng cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a rhwng ein bywydau ni a bywydau pobl ledled y byd;
- anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- y berthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol;
- goblygiadau popeth a wnawn yn lleol ac yn fyd-eang; a'r
- camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd i ymateb i faterion lleol a byd-eang.

Diben adroddiad Estyn yw rhoi datganiad sefyllfa i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y gwaith sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd i ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned a phobl ifanc mewn lleoliadau gwaith ieuenctid am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac argymell ffyrdd ymlaen ar gyfer datblygu'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar:

- raddau ac ansawdd ADCDFE a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid;
- y systemau a'r cymorth sydd ar gael i ddarparwyr sy'n datblygu ADCDFE; a'r
- potensial ar gyfer datblygu ADCDFE yn y dyfodol.

Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Alexandra Doel
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464